

# Telerau ac amodau - Tocyn Parcio Gwynedd

1. Gall daliwr Tocyn Parcio Gwynedd barcio am ddim ym **meysydd parcio arhosiad Cyngor Gwynedd sydd wedi eu rhestru isod**. Noder nad ydi **pob** maes parcio arhosiad hir Cyngor Gwynedd yn rhan o'r cynllun.
2. Gall dalwyr Tocyn Parcio Gwynedd sy'n **60+** hefyd barcio am ddim am hyd at 2 awr yn y **meysydd parcio arhosiad byr Cyngor Gwynedd** a restrir isod. Darperir cloc disg at ddefnydd pobl 60+ mewn meysydd parcio arhosiad byr. Rhaid dilyn y cyfarwyddiadau ar y disg a'i arddangos gyda'ch tocyn.
3. Rhaid bod yn **60+** oed ar y diwrnod yr ydych yn prynu y tocyn er mwyn cael parcio yn y meysydd parcio arhosiad byr. Nid yw'n bosib newid eich manylion yn ystod y cyfnod mae'r tocyn yn ddilys.
4. Bydd y dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen wedi ei argraffu ar eich tocyn. Bydd eich Tocyn yn ddilys rhwng y dyddiadau yma yn unig.
5. Nid oes llecyn parcio wedi'i warantu. Rhaid parcio oddi fewn y manau sydd wedi'u marcio.
6. Rhaid arddangos y tocyn yn glir ar ffenestr flaen y cerbyd, ac mae'n rhaid medru ei ddarllen o'r tu allan. Mae peidio ag arddangos y tocyn yn drosedd o dan Orchymyn Parcio Oddi Ar y Stryd y Cyngor a gallwch dderbyn Rhybudd Talu Cosb. Mae telerau ac amodau sydd ar fwrdd tariff y meysydd parcio yn berthnasol.
7. Dim ond ar gyfer cerbyd gydag injan ynddo mae'n bosib prynu tocyn. Ni ellir prynu tocyn ar gyfer parcio trelar / carafán ayyb yn y meysydd parcio.
8. Ni ddylech lungopïo na newid eich tocyn blynyddol, na gadael i rywun arall wneud hynny.
9. Os ydych yn colli Tocyn Parcio Gwynedd bydd cost o £20 am ail-argraffu ac ail-anfon y tocyn.
10. Bydd e-bost/llythyr atgoffa yn cael ei anfon atoch pan fydd yn amser adnewyddu eich tocyn. Gallwch adnewyddu tocyn 28 diwrnod o flaen llaw.
11. Yn unol â'r Rheoliadau Gwerthu o Bellter mae gennych saith diwrnod gwaith ar ôl derbyn y telerau ac amodau i ganslo'r gwasanaeth. Bydd rhaid dychwelyd y tocyn parcio cyn y bydd ad-daliad yn cael ei roi. Ar ôl saith diwrnod gwaith, ni fydd ad-daliad ar gael am y tocyn parcio.

# Meysydd parcio dilys

## 1) Arhosiad hir

- **Aberdyfi** Prif faes parcio; Penhelig
- **Abermaw** Prif faes parcio; Pen y Gogledd; Black Patch
- **Abersoch**, Y Fach
- **Y Bala** Y Grîn; Stryd Plase (rhan arhosiad hir yn unig)
- **Bangor** Allt Castell; Sgwâr Kyffin; Minafon
- **Beddgelert** Colwyn Banc
- **Bethesda** Cae Star
- **Blaenau Ffestiniog** Diffwys (rhan arhosiad hir yn unig)
- **Borth y Gest** Prif faes parcio
- **Caernarfon** Safle Shell; Balaclafa; Penllyn (llawr 2 a 3 yn unig); Canolfan Cyfiawnder Troseddol
- **Criccieth** Y Maes; Rhodfa'r Môr; Morannedd; Abereistedd
- **Dolgellau** Marian (cefn); Y Marian Mawr (1 Tachwedd i 28 Chwefror yn unig)
- **Y Friog** Arglawdd; Ffordd y Traeth
- **Harlech** Bron y Graig Uchaf; Min y Don; Traeth Llandanwg
- **Llanberis** Ger y Llyn
- **Porthmadog** Iard yr Orsaf; Llyn Bach; Maes Parcio Stryd Lombard
- **Pwllheli** Ffordd Caerdydd; Penlan; Tafarn y Black Lion; Penmount; Y Promenâd

## 2) Arhosiad byr – ar gael i ddeiliaid sy'n **60+ yn unig** (hyd at 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 24 awr)

- **Abermaw** Ffordd Jiwibili
- **Bala** Stryd Plase (rhan arhosiad byr yn unig)
- **Bangor** Plasllwyd; Minafon; Canondy; Stryd Jâms; Glanrafon
- **Caernarfon** Penllyn (pob llawr); Tan y Bont; Glan y Môr Uchaf; Ffordd y Felin
- **Dolgellau** Marian (Mawr)
- **Harlech** Bron y Graig Isaf
- **Porthmadog** Heol y Parc
- **Pwllheli** Y Maes; Cei'r Gogledd

Wrth brynu Tocyn Parcio Gwynedd rydych yn cytuno i weithredu yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn.